

Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl
Dydd Mercher 06 Gorffennaf, 10.00 – 11.30am
Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Mark Drakeford, AC (Cadeirydd)	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Jackie Davies	Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
Linda Davies	Swyddog Cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru
John Dixon	RNIB
Miranda French	Anabledd Cymru
Tracey Good	Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
Andrea Gordon	Cŵn Tywys Cymru
Helen Gumett-Preece	RNIB
Maggie Hampton	Celfyddydau Anabledd Cymru
Ella Jones	Diverse Cymru (cysgodi gwaith)
Martyn Jones	Diverse Cymru
Catherine Lewis	Plant yng Nghymru
Sian Lewis	Yr Is-adran Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
Tara Lewis	Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG (cysgodi gwaith)
Cathryn McShane	Cyfieithydd BSL
Alan Meudell	Defnyddiwr y Gwasanaeth Iechyd Meddwl
Glenn Page	Mencap Cymru
Rhian Stangroom-Teel	Leonard Cheshire Disability
Sharon West	Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
Alyn Williams	Tai, Llywodraeth Cymru
Owen Williams	Cyngor Cymru i'r Deillion
Richard Williams	Action on Hearing Loss Cymru
Victoria Wass	Prifysgol Caerdydd – Ysgol Fusnes

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Gweinidog bawb a gofynnwyd i'r bobl a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain o gwmpas y bwrdd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Wayne Crocker	Mencap Cymru
Jim Crowe	Anabledd Dysgu Cymru
Rhian Davies	Anabledd Cymru
Cerris Dearsley-Hopkins	Entrepreneuriaeth, Llywodraeth Cymru
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2. Yr Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Gweinidog
Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

- 2.1 Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gadeirio'r Fforwm. Rhoddodd adroddiad i'r grŵp ynghylch datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.
- 2.2 Roedd y cyfrifoldeb strategol trawsbynciol dros gydraddoldeb yn perthyn i'w bortffolio ef, er bod pob un o Ysgrifennyddion y Cabinet yn gyfrifol am gydraddoldeb o fewn eu meysydd polisi penodol.
- 2.3 Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cwrdd â llawer o aelodau'r Fforwm eisoes yn ei rôl flaenorol fel Gweinidog lechyd, ac roedd yn edrych ymlaen at gydweithio â'r grŵp.
- 2.4 Roedd canlyniad y refferendwm yn dominyddu pryderon Llywodraeth Cymru, ac roedd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau y bydd yr addewidion a wnaed yn ystod y refferendwm gan yr ymgyrch o blaid Gadael yr UE yn cael eu cyflawni. Bydd Prif Weinidog Cymru yn rhan o'r trafodaethau ar bob lefel er mwyn gwarchod buddiannau Cymru. Byddai'r posibilrwydd gwirioneddol y bydd gostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i'r refferendwm, yn cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ledled Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen hawlio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd tan ddiwedd 2018.
- 2.5 Roedd Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020 wedi cael eu cyhoeddi ar eu newydd wedd ac roeddent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 2.6 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r grŵp ystyried ai nawr fyddai'r adeg briodol i adolygu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol ac ystyried beth yn fwy y gellid ei wneud i wneud cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth. Dywedodd hefyd ei fod am weld Fforwm lle y byddai aelodau yn cyflwyno syniadau a materion ar gyfer eu trafod.

Cam Gweithredu: Dyfodol Tecach i ganfasio barn aelodau'r Fforwm ynghylch a oes angen adolygu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Cam Gweithredu: Dyfodol Tecach i ychwanegu adolygiad posibl o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

3. Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

- 3.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015 yn gofnod cywir.
- 3.2 Roedd 2 bwynt gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:
1. *Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch y cyfleoedd i gyflogi pobl anabl drwy grantiau sy'n cael eu darparu ar gyfer busnesau.*

Mae hyn wedi'i gyflawni.

Pwysleisiodd yr ymateb oddi wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y cyngor a'r cymorth a gynigir gan Fusnes Cymru i unigolion sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain, ynghyd â'r cyngor arbenigol sydd ar gael i fusnesau er mwyn iddynt wella eu polisiau a'u harferion cyfleoedd cyfartal.

Roedd yr ymateb hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddi gyrwyr mewn perthynas ag ymwybyddiaeth anabledd, ac yn cadarnhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Byrdwn hyn oedd ei gwneud yn ofynnol i yrwyr busnesau gwblhau modiwl Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol ar ymwybyddiaeth anabledd er mwyn bod yn gymwys i gael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Gynllun Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau. Bydd y dyfarniad ariannol yn cynyddu wrth i ganran y gyrwyr sydd wedi gwneud yr hyfforddiant gynyddu.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Safon Ansawdd Bysiau Cymru wedi'i chyhoeddi ym mis Mawrth 2016 a fydd yn codi'r safonau y gall pob teithiwr eu disgwyl yn rhesymol.

2. *Dyfodol Tecach i siarad ag Owen Williams ynghylch Mynediad i Waith a'i ychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.*

Roedd hyn wedi cael ei gynnwys o dan eitem 5 agenda cyfarfod heddiw.

Cam Gweithredu: Dyfodol Tecach i gylchredeg dolen at Safon Ansawdd Bysiau Cymru ymhlith aelodau'r Fforwm.

4. Tai – Cymhorthion ac Addasiadau **Alyn Williams – Llywodraeth Cymru**

- 4.1 Dywedodd Alyn Williams fod dros £50 miliwn yn cael ei wario bob blwyddyn ar addasu tai pobl gan Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a Llywodraeth Cymru. Mae tua 4,500 o bobl yn cael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae dros 17,000 o bobl yn cael cymorth drwy'r Rhaglen Addasiadau Brys ac mae dros 30,000 o bobl yn cael cymorth gan asiantaethau Gofal a Thrwsio.
- 4.2 Cynhaliwyd adolygiad o'r system cymhorthion ac addasiadau ar gyfer tai yn 2014, a chyhoeddwyd y canlyniadau yn 2015. Nododd yr adolygiad fod rhai pobl yn meddwl bod y system yn anodd ei deall ac nad oeddent yn gwybod pa gymorth oedd ar gael neu sut i fanteisio arno. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn beirniadu'r system hefyd am fod yn 'loteri codau post'.
- 4.3 Ar 1 Ebrill 2016, cafodd system well o'r enw 'Hwyluso – Cymorth i Fyw'n Annibynnol' ei rhoi ar waith ledled Cymru i'w gwneud yn haws i bobl gael cymorth pan fo angen. Bydd y cymorth ar gael i bawb, beth bynnag fo eu hoed, eu hanabledd, eu trefniant neu eu lleoliad.
- 4.4 Gall unigolion y mae angen cymorth arnynt i addasu eu cartrefi ddisgwyl cael cymorth prydlon a gwasanaeth di-dor sy'n darparu'r cymorth, beth bynnag fo'r pwynt cyswllt cyntaf neu'r angen a nodir.

4.5 Mae tri chategori eang o ran cymorth:

- Graddfa fechan iawn – e.e. canllawiau cydio, canllawiau grisiau
- Graddfa fechan – e.e. cawodydd cerdded i mewn, lifftiau grisiau, rampiau
- Graddfa fawr – e.e. addasiadau y mae angen newid strwythurol mawr neu estyniad ar eu cyfer.

4.6 Mae dulliau'r system o ran cymeradwyo wedi cael eu symleiddio a'u safoni er mwyn darparu addasiadau'n gyflymach ar gyfer pobl sydd eu hangen. Er enghraifft, ni fydd addasiadau 'ar raddfa fechan iawn' yn seiliedig ar brawf modd ac ni fydd asesiad gan therapydd galwedigaethol yn ofynnol ychwaith. Bydd hyn hefyd yn wir am rai addasiadau 'ar raddfa fechan'.

4.7 Mae gwerthusiad annibynnol o'r system well yn cael ei gomisiynu. Bydd hyn yn rhoi set fwy cynhwysfawr o ddata ar addasiadau a ddarparwyd a'u heffaith, gan gynnwys adborth ar lefelau bodddhad y rheini sydd wedi derbyn cymorth.

4.8 Bydd data cyffredin yn cael eu casglu oddi wrth ddarparwyr beth bynnag fo'r ffynhonnell sydd wedi darparu neu wedi cyllido'r addasiad angenrheidiol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i werthuso'r system ac i lywio unrhyw ddatblygiadau pellach.

4.9 Cododd aelodau o'r Fforwm y pwyntiau a ganlyn:

- Bydd yn bwysig rhoi cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl i'r system well, er mwyn cyrraedd y rheini nad ydynt yn ymwybodol efallai o'r hyn sydd ar gael, neu'r bobl hynny nad ydynt yn sylweddoli y gall system o'r fath roi cymorth iddynt.
- Mae angen i bobl anabl gael gwybod am y newidiadau. Awgrymwyd defnyddio sefydliadau anabled a meddygfeydd fel ffyrdd o dargedu pobl. Cadarnhaodd Alyn Williams mai'r bwriad oedd cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun mewn fformatau gwahanol.
- Bydd yn bwysig casglu gwybodaeth am y bobl hynny y bernir nad ydynt yn gymwys i gael cymorth nac addasiad. Cadarnhaodd Alyn Williams y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu.
- Mae Leonard Cheshire yn rhedeg ymgyrch ar hyn o bryd ynghylch y diffyg tai sy'n addas ar gyfer pobl anabl a sut y gall fod yn amhosibl gwneud yr addasiadau angenrheidiol mewn rhai tai. Ochr yn ochr â darparu cymhorthion ac addasiadau, bydd yn bwysig edrych ar y broses adeiladu ei hunan.
- Tynnwyd sylw at Safon Ansawdd Tai Cymru gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol wella ei stoc o dai, fel eu bod yn cyrraedd lefel dderbyniol erbyn 2020. Bydd yn sicrhau bod anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion y presennol a'r dyfodol.
- Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cyfnod cyn yr etholiad, a oedd yn cyd-daro ag adeg lansio'r cynllun gwell, yn golygu bod yna gyfyngiadau ar y camau

gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir mwyach a byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau.

5. Mesur Anfantais Oherwydd Anabledd yn y Gweithle
Dr Victoria Wass, Ysgol Fusnes Caerdydd

- 5.1 Rhoddodd Dr Wass gyflwyniad (wedi'i atodi) ynghylch mesur Anfantais Oherwydd Anabledd yn y gweithle. Dywedodd fod tueddiadau yn y cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn ddangosydd allweddol o ran cynnydd tuag at gydraddoldeb i bobl anabl.
- 5.2 Dywedodd fod anabledd yn fater cymhleth iawn – nid oedd yn sefydlog, ac yn aml, roedd yn rhywbeth cudd a heb ei ddatgelu. Yn wahanol i grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig, megis hil neu rywedd, sy'n gofyn am driniaeth gyfartal, yn aml, mae angen triniaeth wahanol ar berson anabl i sicrhau tegwch i bawb. Yn aml iawn, mae bylchau o ran cyflogaeth yn ehangach ar gyfer pobl anabl nag o ran grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 5.3 Yn ei maniffesto yn 2015, roedd y Blaid Geidwadol wedi ymrwymo i haneru'r bwch o ran cyflogi pobl anabl yn ystod y tymor presennol. Mae'r tueddiad yn y DU yn ymddangos fel pe bai'r bwch o ran cyfraddau cyflogaeth wedi lleihau rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, gall y tueddiad amrywio, gan ddibynnu ar ba arolwg sy'n cael ei ddefnyddio.
- 5.4 Ers yr adolygiad o ran iechyd a gwaith a wnaed gan Carol Black yn 2008, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu fel ei ffynhonnell ddata. Fodd bynnag, mae'r Arolwg o Gartrefi Cyffredinol y DU yn dangos nad yw'r bwch cyflogaeth wedi dechrau cau. Mae'r ddau arolwg yn cael eu casglu a'u cyhoeddi gan Lywodraeth y DU.
- 5.5 Mae'r Arolwg o'r Llafurlu hefyd yn dangos bod canran uwch o bobl anabl yn hunangyflogedig neu mewn gwaith rhan-amser. Mae angen gweld a yw hyn yn digwydd oherwydd dewis ar ran pobl anabl, neu a yw amgylchiadau yn eu gorfodi i wneud hyn.
- 5.6 Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos bod pobl anabl yn profi llai o foddhad o ran eu swyddi, sydd yn ei dro, yn effeithio ar lefelau cadw staff. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, yn ogystal, bod ffactorau megis y dirwasgiad yn cael effaith andwyol ar bobl anabl.
- 5.7 Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi casglu llawer o wybodaeth am y maes hwn ac mae ganddi amrywiaeth o setiau data. Mae llawer o'i gwaith wedi cael ei gyhoeddi mewn cyfnodolion academiaidd yn unig, felly mae'r Ysgol yn awyddus i ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau er mwyn rhannu ei chanfyddiadau yn ehangach. Mae hefyd yn cynnig y posibilrwydd i grwpiau ymchwilio i broblemau drwy ddefnyddio'r data presennol neu drwy wneud ymchwil newydd.

5.8 Dywedodd Dr Wass y gall fod angen gwneud dadansoddiad pellach o'r ffigurau a ddarparwyd yn yr arolygon, yn ogystal ag ymchwil pellach er mwyn cael gwybod beth yw'r rhesymau sylfaenol. Mae gan ddata meintiol eu cyfyngiadau. Mae angen gwneud ymchwil ansoddol i ddarganfod yr hyn sydd wrth wraidd rhai o'r materion a nodwyd, megis boddhad o ran swydd a'r dirwasgiad.

5.9 Cododd aelodau o'r Fforwm y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd lefel isel o ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o hyd o ran sicrhau hwylustod i ymgeiswyr mewn prosesau recriwtio, a'r cymorth sydd ar gael i wneud addasiadau yn y gweithle. Mae angen rhoi cyhoeddusrwydd mwy effeithiol i Fynediad i Waith.
- Mae'n bwysig pwysleisio'r model cymdeithasol o anabledd wrth edrych ar rwystrau i gyflogaeth er y cydnabuwyd mai'r model meddygol o anabledd, fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yw'r ffynhonnell ddata ynghylch anabledd fel arfer.
- Mae angen gwneud gwaith pellach i ganfod y rhesymau sydd y tu ôl i'r ffigurau.
- Bydd adroddiadau a gaiff eu cyhoeddi yn ystod 2016 gan y pwyllgorau dethol seneddol perthnasol yn rhoi gwybodaeth bellach.

6. Mynediad i Waith ar gyfer pobl sydd â Nam ar eu Golwg *Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion a John Dixon, RNIB*

6.1 Roedd Cyngor Cymru i'r Deillion a'r RNIB wedi bod yn ymgynghori â phobl yng Nghymru sydd â nam ar eu golwg er mwyn creu adroddiad i gael ei gyflwyno i'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r cynllun Mynediad i Waith. Roedd yr RNIB wedi rhedeg gweithdai ar draws y DU, ac roedd y canfyddiadau yn debyg i'r rheini a gafwyd yng Nghymru.

6.2 Roedd yr adroddiad, sydd ar ffurf ddrafft ac yn aros i gael ei gyfieithu i'r Gymraeg, yn cynnwys 22 o argymhellion (gweler y cyflwyniad sydd wedi'i atodi). Roedd penawdau'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae cyfradd ddiweithdra o 75% ymhlith pobl sydd â nam ar eu golwg, ac mae'r cynllun Mynediad i Waith yn hanfodol er mwyn cefnogi pobl i gael swyddi ac i aros mewn cyflogaeth.
- Mae gostyngiad wedi bod yn ansawdd y gwasanaeth sydd wedi'i ddarparu ac o ran gwerth y cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun.

6.3 Cododd aelodau o'r Fforwm y pwyntiau a ganlyn:

- Un o'r anawsterau o ran hyrwyddo Mynediad i Waith yw mai cynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau ydyw, nid cynllun Llywodraeth Cymru. Oherwydd ei bwysigrwydd o ran rhoi cyfleoedd i bobl anabl gael swyddi ac aros mewn

cyflogaeth, byddai'n fuddiol pe gallai Llywodraeth Cymru arwain o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth ohono yng Nghymru.

- Dywedodd Linda Davis wrth y grŵp fod gwaith yn mynd rhagddo rhwng Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith er mwyn datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru. Ei nod fydd ymgysylltu â phobl yn yr holl bwyntiau mynediad at gyflogaeth, gan gynnwys colegau Addysg Bellach a chynlluniau prentisiaeth.
- Efallai y bydd cyfle i Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) gynnwys anabledd yn ei gyrsiau hyfforddi.
- Gallai adolygiad o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol dynnu sylw at Fynediad i Waith oherwydd y rôl bwysig y mae'n chwarae o ran galluogi pobl anabl i gael swyddi.
- Ymddengys fod diffyg cyngor arbenigol ar gael gan aseswyr Mynediad i Waith – erbyn hyn, disgwylir i'r unigolyn wybod pa gymorth sydd ei angen arno.
- Mae llawer o gyflogwyr eisoes yn meddwl ei bod yn anodd cyflogi rhywun sydd â nam ar ei olwg. Os oes canfyddiad bod Mynediad i Waith yn anodd hefyd, bydd cyflogwyr hyd yn oed yn fwy negyddol lle rydym am iddynt gael profiad cadarnhaol.

7. Unrhyw fater arall / dyddiad y cyfarfod nesaf

- 7.1 Awgrymwyd y dylai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar faterion cyflogaeth, gan gynnwys Mynediad i Waith.
- 7.2 Mae'r cyfarfod nesaf i gael ei drefnu ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2016, dyddiad i'w gadarnhau.